PROSIECT:

# HYBU MWYNIANT A MYNEDIAD AT FYD NATUR DRWY WELLIANNAU YN YR AWYR AGORED

YMGEISYDD: **CYNGOR CYMUNED NANNERCH**

SNIFER Y RHANDDEILIAID A FU'N YMWNEUD Â'R PROSIECT
**26**

LLEOLIAD
**NANNERCH, SIR Y FFLINT**

CYFANSWM GWERTH Y PROSIECT
**£24,470**



## Y GRONFA CYMUNEDAU GWYRDD

Bwriad y Gronfa Cymunedau Gwyrdd, a weinyddir gan asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd, yw cefnogi gwelliannau i weithgareddau awyr agored ar gyfer y gymuned, a'r adnoddau cysylltiedig.

Gan ddefnyddio'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, rhoddwyd cymorth i 30 o ardaloedd yn siroedd Dinbych, Conwy, Y Fflint a Wrecsam i drawsnewid llecynnau awyr agored yn fannau lle bydd bywyd gwyllt yn ffynnu a chreu mannau dymunol i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

Mae rhai grwpiau wedi dewis gosod systemau ynni adnewyddadwy megis paneli solar i ostwng allyriadau carbon a helpu i leihau biliau tanwydd. Derbyniodd y prosiect gyfraniad gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDS).

Mae'r gronfa hon yn cynorthwyo prosiectau amgylcheddol arloesol a chynaliadwy sy'n ymwneud â chymunedau lleol yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

## Y PROSIECT

Yn dilyn cynnydd yn y nifer o bobl sy'n mwynhau'r awyr agored yn ardal Nannerch ar ôl cyfnod y Covid, codwyd mwy na £40,000 gan y cyngor cymuned dros y tair blynedd ddiwethaf i wella ei fan chwarae lleol, yn seiliedig ar syniadau a gyflwynwyd gan blant ifanc yr ardal.

Ar ôl derbyn arian o'r Gronfa Cymunedau Gwyrdd mae'r pentref yn Sir y Fflint yn awr wedi gwneud gwelliannau pellach i adnoddau'r ardal, yn cynnwys gwella llwybrau, gosod seti a chreu ardaloedd bywyd gwyllt.



## NODAU'R PROSIECT

Roedd nodau'r prosiect yn cynnwys gwella llwybrau a seti er mwyn hwyluso mynediad i bobl hŷn at atyniadau'r pentrf, ac annog teuluoedd i dreulio mwy o amser yn mwynhau cwmni ei gilydd.

Roedd y gwelliannau'n broses gydweithredol, gyda'r gymuned yn chwarae rhan amlwg o'r dechrau cyntaf er mwyn hyrwyddo'r ymdeimlad o berchnogaeth dros y gwelliannau ymhlith trigolion y fro.

CYMUNEDAU GWYRDD
GREEN COMMUNITIES
CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## GWEITHGAREDD

Fel rhan o'r prosiect, derbyniodd y cyngor arian i wella'r llwybrau o amgylch y pentref i'w gwneud yn haws i bobl hŷn a rhai gydag anawsterau symud eu tramwyo.

Mae'r gwelliannau'n cynnwys:

- Gosod gatiau mochyn (kissing gates) yn lle 27 camfa, fel y gall cerddwyr o bob gallu cerdded fynd trwyddynt. Fe'u gosodwyd gyda chymorth Cyngor Sir y Fflint
- Gwella draeniad er mwyn atal llifogydd fel bod modd defnyddio'r llwybrau trwy gydol y flwyddyn.

Gosodwyd dwy fainc picnic, a wnaed o gynwysyddion llaeth wedi eu hailgylchu, i greu mwy o fannau eistedd yn y parc ac annog ymwelwyr i dreulio mwy o amser yn y llecyn hwn. Hefyd gosodwyd rhagor o seti yma ac acw o fewn y plwyf.

Gyda chymorth plant a gwirfoddolwyr lleol, plannwyd perllan gymunedol a gwrychoedd i guddio man chwarae wyneb concrit oedd â ffens wifrau o'i amgylch, a thrwy hynny annog tyfiant naturiol a chreu amgylchedd brafiach yn y llecyn hwn.

Hefyd, crëwyd ardal benodol i fywyd gwyllt drwy blannu coed brodorol i feithrin a gwarchod bioamrywiaeth.

Fel rhan o'r prosiect, mae taflen Milltiroedd Cymunedol / Community Miles yn cael ei pharatoi, yn rhestru llwybrau cerdded yr ardal, yn dwyn sylw at y llwybrau a gafodd eu gwella ac yn hyrwyddo'r busnesau a geir ym mentrefi'r fro.



*"DRWY WELLA MYNEDIAD AT FYD NATUR O AMGYLCH EIN PENTREF, RYDYM YN GOBEITHIO HELPU I LEIHAU AMDDIFADEDD CYMDEITHASOL AC ANNOG MWY O YMWELWYR A THRIGOLION LLEOL O BOB GALLU I FWYNHAU ATYNIADAU'R FRO."*

*- HUW MORGAN*

## CANLYNIADAU

Mae preswylwyr a gwirfoddolwyr eisoes wedi gweld effaith gadarnhaol y cynlluniau. Cyngor Cymuned Nannerch oedd yn arwain y gwelliannau. Meddai'r Cadeirydd:

"Oherwydd eu bod wedi ymwneud â'r cynllun o'r cychwyn cyntaf drwy blannu a gwella'r llecynnau bywyd gwyllt, mae pobl yn meddwl y byd o'r parc, yn teimlo perchnogaeth drosto ac yn falch dros ben o'r hyn a gyflawnwyd.

"Roedd yn allweddol bwysig meddwl am anghenion ein trigolion trwy gydol y gwaith, a gwych oedd derbyn cyllid a chymorth parhaus gan Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i wireddu ein gobeithion."

*Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.*

CONWY Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council
Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
wrexham County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol wrecsam
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Clwydian Range and Dee Valley